



Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i Ddiogelu Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth

BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Fersiwn	Dyddiad Diwygio	Perchennog	Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
F1	25/04/2024	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	25/04/2023	25/04/2025



Enw'r Polisi / Y Weithdrefn / Y Canllawiau	Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i Ddiogelu Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth
Cyfnod Ymgynghori	28/01/2022 – 03/06/2022
Dyddiad Cyhoeddi	
Dyddiad Adolygu	

Lledaenu/ Rhoi ar Waith

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau y rhoddir y Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau yma ar waith.

BDCAGC	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod ar wefan BDCGC. • Anfon at Asiantaethau Partner ar gyfer lledaenu • Lledaenu i arweinwyr hyfforddiant asiantaethau partner ar gyfer cynnwys o fewn hyfforddiant fel y bo'n briodol • Diweddarau hyfforddiant perthnasol i adlewyrchu'r Polisi/y weithdrefn/y canllawiau
Holl Asiantaethau Partner	<ul style="list-style-type: none"> • Lledaenu'r Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau i bob Arweinydd Gwasanaeth/ Pennaeth Gwasanaeth/Arweinydd Diogelu/ aelod o staff trwy sianeli cyfathrebu priodol e.e. Grwpiau Gweithredol Lleol • Gosod o fewn eu gwefan eu hunain a chynnwys dolen gyda Gwefan BDCGC https://www.cysur.wales/ • Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau mewnol i adlewyrchu'r Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau fel y bo'n briodol. • Diweddarau hyfforddiant mewnol i adlewyrchu'r broses fel y bo'n briodol.

Sicrwydd

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau BDCGC o ran lledaenu'r polisi hwn a'i roi ar waith:

BDCAGC	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn am sicrwydd gan Asiantaethau Partner eu bod wedi cael eu rhoi ar waith
Asiantaethau Partner	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sicrwydd i BDCGC bod y broses uchod o roi'r canllawiau hyn ar waith wedi cael ei chwblhau

Cynnwys

TUDALEN

1.	Cyflwyniad	4
2.	Trefniadau Rhanbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywio yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru	5
3.	Deddfwriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Diffiniad Statudol	5
4.	Diben	7
5.	Amcanion	7
6.	Effeithiau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth	8
7.	Cyfrifoldebau'r Heddlu	9
8.	Cydsyniad a Diogelu DATA	11
9.	Awdurdodau Lleol	12
10.	Asesiad Risg DASH	12
	Atodiad 1: Llwybr Rhanbarthol at Gymorth ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru	18

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ychwanegol i gynorthwyo partneriaid Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lle maent yn effeithio ar oedolion ag anghenion gofal a chymorth a hefyd lle mae'r atgyfeiriadau hyn y tu allan i'r trothwy oedolyn sy'n wynebu risg.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod ymchwil yn awgrymu bod Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn digwydd ym mhob rhan o gymdeithas ni waeth beth fo'u hil, rhyw, diwylliant, cenedligrwydd, crefydd, rhywioldeb, anabledd, oedran, dosbarth na lefel addysgol.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, rhaid hysbysu adran gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol am bryderon ynghylch diogelu sy'n ymwneud ag oedolyn sy'n wynebu risg (Gweler y diffiniad isod) am bod ganddynt gyfrifoldeb statudol i benderfynu a oes angen cyflawni dyletswydd dan a126 i gynnal ymholiadau. Os oes angen ymholiadau a126, gall yr awdurdod lleol wneud hyn neu gall ofyn i asiantaeth fwy priodol wneud yr ymholiadau hyn ar ei ran. Mae dyletswydd ar asiantaethau partner i ymgysylltu â'r broses ddiogelu statudol.

Mae dyletswyddau Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg yn berthnasol i oedolyn: y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio) **ac**; sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; **ac** nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

(Canllawiau Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014):

Pwy all gael ei ystyried ar gyfer ymholiad statudol o dan A126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Gall unrhyw oedolyn a allai fod yn wynebu risg fel a ddiffiniwyd ac a amlinellwyd uchod, gael ei ystyried ar gyfer ymholiad diogelu statudol. Gall hyn gynnwys pobl ag anableddau dysgu, materion iechyd meddwl, pobl hŷn, a phobl ag anabledd neu nam corfforol. Gall hefyd gynnwys oedolion sy'n ddiodefwyr arferion gofal camdriniol; esgeuluso; cam-drin domestig; troseddau casineb; anffurfio organau cenhedlu benywod; priodas dan orfod; caethwasiaeth fodern; masnachu pobl ac ymddygiad cam-drin gwrthgymdeithasol. Gall hefyd gynnwys unigolyn a allai fod yn agored i niwed o ganlyniad i'w rôl fel gofalwr mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod.

Efallai y bydd angen oedolyn am gymorth ychwanegol i'w amddiffyn ei hun yn cynyddu pan gaiff ei gymhlethu gan ffactorau ychwanegol, megis eiddilwch corfforol neu salwch cronig, nam synhwyraidd, ymddygiad heriol, problemau cyffuriau neu alcohol, problemau cymdeithasol neu emosiynol, tloedi neu ddiartrefedd ac mae'n bwysig nodi y gall y lefelau o fod yn agored i niwed amrywio.

2. Trefniadau Rhanbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, caiff cymorth ac ymatebion amlasiantaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol eu goruchwyllo gan y trefniadau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys strwythur llywodraethu strategol amlasiantaeth rhanbarthol sy'n cynnwys Bwrdd Strategol Rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynllunio lefel-uchel a grŵp cyflawni gweithredol sy'n goruchwyllo'r broses o ddarparu gwasanaethau. Mae gan y ddau fforwm gynrychiolaeth gref o'r trydydd sector o blith gwasanaethau cam-drin domestig yn y rhanbarth. Mae'r strwythur llywodraethu ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn atebol i'r bwrdd diogelu rhanbarthol, gan ddarparu goruchwyliaeth gadarn a threfniadau llywodraethu cryf. Dylid nodi bod gan wasanaethau a swyddogaethau cynllunio sy'n rhan o'r strwythur hwn gyfrifoldeb ehangach sy'n ymestyn i ddioddefwyr cam-drin domestig nad ydynt o bosibl wedi'u hasesu fel oedolion sy'n wynebu risg yn unol â'r diffiniad a amlinellir uchod.

3. Deddfwriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Diffiniad Statudol.

(Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015)

Mae'r Ddeddf hon yn darparu fframwaith strategol yng Nghymru i wella trefniadau ar gyfer atal pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac amddiffyn a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan hynny. Yr amcan trosfwaol yw gwella ymatebion y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd ac mae'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu pob math o drais ac ymddygiad o'r math yma. Yn unol â'n trefniadau a'n strwythurau rhanbarthol, mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyhoeddi *Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol 2023-2027*, sy'n amlinellu blaenoriaethau strategol a chynllun cyflawni ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Gellir cael mynediad at hon ar ein gwefan <https://www.cysur.wales/media/ebhbad4t/mww-regional-strategy-word-doc-cymraeg.pdf>

Deddf Cam-drin Domestig 2021

Y diffiniad trawslywodraethol o drais a cham-drin domestig yng Nghymru yw:

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheolaethol, gorfodaethol, bygythiol, trais neu gam-drin rhwng pobl 16 oed neu drosodd sydd, neu a fu, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r un teulu ni waeth beth fo'u rhywedd na'u rhywioldeb. Gall y cam-drin fod, ymhlith mathau eraill, yn:

- seicolegol
- ffisegol
- rhywiol
- ariannol

- emosiynol

Ar 29 Ebrill 2021, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 a daeth yn gyfraith. Nod y ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr yw sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ddeall yn iawn a'i fod yn cael ei ystyried yn annerbyniol. Yn wahanol i'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sy'n berthnasol i Gymru yn unig, mae'r ddeddfwriaeth hon yn un ar gyfer y DU gyfan ac yn cwmpasu Cymru a Lloegr.

Mae'r Ddeddf yn cefnogi'r farn y gall cam-drin domestig fod ar sawl ffurf ac mae'r diffiniad cyfreithiol bellach yn ymgorffori ystod o fathau o gam-drin y tu hwnt i drais corfforol. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth emosiynol, orfodaethol a cham-drin economaidd, a all gynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad.

Er mwyn cyd-fynd â'r diffiniad, mae'n rhaid i'r dioddefwr a'r cyflawnwr fod 'wedi'u cysylltu'n bersonol'. Mae hyn yn sicrhau bod gwahanol fathau o berthnasoedd wedi'u cynnwys, gan gynnwys aelodau o'r teulu a rhywun o fewn eu 'teulu o ddewis' (a gydnabyddir yn gyffredin yn y gymuned LHDTTC+). Nid yw'r diffiniad yn ymestyn i ofalwyr sy'n gweithio am dâl na gofalwyr di-dâl, oni bai eu bod wedi'u cysylltu'n bersonol.

Gellir adnabod sawl cyflawnwr neu dioddefwr, er enghraifft, gall plentyn sy'n oedolyn ymddwyn yn gamdriniol tuag at ei dad a'i fam. O dan amgylchiadau o'r fath, dylid rhoi asesiad risg priodol ar waith i bob unigolyn.

Mae amrywiaeth o droseddau sy'n berthnasol wrth ystyried Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac mae rhai o'r rhain wedi'u rhestru isod.

Ymddygiad Rheolaethol a Gorfodaethol

Creodd Adran 76 y Ddeddf Troseddau Difrifol (2015) drosedd newydd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol. Daeth y ddeddfwriaeth hon, nad yw'n cael effaith ôl-weithredol, i rym ar 29 Rhagfyr 2015. Nid yw ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol yn ymwneud ag un digwyddiad, mae'n batrwm pwrpasol o ddigwyddiadau sy'n digwydd dros amser er mwyn i un unigolyn ddefnyddio pŵer, rheolaeth neu orfodaeth dros un arall. Nod y ddeddfwriaeth yw cau bwloch yn y gyfraith mewn perthynas â phatrymau ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol yn ystod perthynas rhwngartneriaid agos, cyn-bartneriaid sy'n dal i fyw gyda'i gilydd, neu aelodau o'r un teulu.

Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn ehangu trosedd ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, i'r perwyl nad yw bellach yn ofynnol i gamdrinwyr a dioddefwyr fod mewn perthynas o hyd na byw gyda'i gilydd.

Mae'r diffiniad yn cynnwys digwyddiadau lle gall aelodau o'r teulu estynedig gydoddef neu rannu ym mhattrwm y cam-drin e.e. priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod a throseddau a gaiff eu rhesymoli trwy ddweud mai cosbi menywod am ddwyn 'anfri' ar y teulu yw'r bwriad.

Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn darparu troseddau perthnasol ar gyfer y canllawiau hyn, a rhai o'r troseddau hyn yw -

- Treisio - Adran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.
- Ymosodiad trwy dreiddio – Adran 2.
- Ymosod yn rhywiol trwy gyffwrdd – Adran 3.
- Achos i Berson Gymryd Rhan mewn Gweithgarwch Rhywiol heb Gydsyniad – Adran 4.

Troseddau Treisgar

- Llofruddiaeth – Cyfraith Gyffredin.
- Dynladdiad – Cyfraith Gyffredin.
- Clwyfo neu achosi Niwed Corfforol Difrifol yn Fwriadol – Adran 18 Deddf Troseddau Corfforol 1861.
- Clwyfo neu Beri Niwed Corfforol Difrifol – Adran 20 Deddf Troseddau Corfforol 1861.
- Ymosodiad sy'n Achosi Niwed Corfforol Gwirioneddol – Adran 47 Deddf Troseddau Corfforol 1861.
- Ymosod Cyffredin / Curo – Adran 39 Deddf Troseddau yn erbyn Person 1861.

4. Diben

Nod y canllaw ymarfer hwn yw nodi arferion cydweithio effeithiol ar gyfer pob asiantaeth pan fydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn effeithio ar oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin a'i esgeuluso.

Diben y canllaw ymarfer hwn yw nodi safon ofynnol o wasanaeth pan fydd ar oedolyn sy'n wynebu risg angen cymorth i'w amddiffyn rhag Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac i adnabod rhwydweithiau cymorth priodol.

5. Amcanion

Amcanion y canllaw ymarfer hwn yw:

- a) Darparu arweiniad i bob asiantaeth wrth atgyfeirio achosion o bryder at y gwasanaeth priodol (Cyfeirier hefyd at Weithdrefnau Diogelu Cymru).
- b) Darparu canllawiau sy'n galluogi asiantaethau i ddefnyddio dull cyson o rannu gwybodaeth.
- c) Nodi safon ofynnol o wasanaeth ar gyfer ymateb i oedolion sy'n wynebu risg y gall fod angen eu hamddiffyn ac y gall fod arnynt angen gwasanaethau cymorth eraill oherwydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

- d) Cynnwys egwyddorion Llesiant fel y'u disgrifir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- e) Cefnogi'r fframwaith canllawiau statudol; ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol (2015). (Diffiniadau wedi'u hamlinellu uchod).

Mae'r canllaw ymarfer hwn yn cydnabod:

- a) Y bydd pob asiantaeth wastad yn ceisio gweithredu er budd pennaf oedolion sy'n wynebu risg y maent yn ymwneud â hwy.

Mae dyletswydd ar bob asiantaeth i ddiogelu cyfrinachedd deunydd a rennir. Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon. [Gall protocol Rhannu Gwybodaeth amlasiantaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ddarparu arweiniad pellach.](#)

6. Effeithiau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth

Mae'n bwysig cydnabod y gall oedolion ag anghenion gofal a chymorth fod yn ddiodefwr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol eu hunain neu y gall effeithio arnynt os yw'n digwydd ar eu haelwyd. Mae hyn yn debygol o gael effaith ddifrifol ar eu lles corfforol a meddyliol.

Mae ymchwil wedi'i chynnal gyda menywod yn bennaf, ac mae'r canfyddiadau'n cynnwys yr effeithir yn gryf ar natur, maint ac effaith camdriniaeth os yw rhywun yn anabl. Canfyddiad arall yw bod camdriniaeth yn arbennig o ddifrifol lle mai'r partner camdriniol yw'r gofalwr hefyd, gan bod gan y gofalwr bŵer a rheolaeth sylweddol a bod y diodefwr yn dibynnu arnynt.

I'r gwrthwyneb, gall diodefwr fod yn rhoi gofal i bartner camdriniol neu aelod camdriniol o'r teulu sydd ag anghenion gofal a chymorth, a all gynyddu lefel y risg a'r unigedd.

Pan fo oedolion sy'n wynebu risg yn diodefwr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i gynllunio eu dyfodol. Gall y cam-drin neu fygythiad o gam-drin barhau ar ôl i ddiodefwr wahanu oddi wrth y camdriniwr. Mae'n bwysig sicrhau bod pob oedolyn sy'n wynebu risg yn y sefyllfa hon yn cael cymorth priodol i'w galluogi i gynnal eu diogelwch personol.

Mae'r angen am gynnig o lety priodol yn hollbwysig wrth ymateb i achos o gam-drin domestig. Os oes ar yr oedolyn angen neu eisiau gadael ei gartref, mae'n hanfodol bod y llety a gynigir iddynt yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy. Bydd hyn yn y bôn yn

cyfrannu at allu'r unigolyn i gynnal y symudiad a chynnal ei ddiogelwch, er y dylid archwilio'r opsiynau i'r person aros gartref a gofyn i'r tramgwyddwr adael y cartref. Dylid nodi bod dyletswydd gyfreithiol ar adran dai pob awdurdod lleol i gynnis llety i ddioddefwyr cam-drin domestig; fodd bynnag, bydd trefniadau ar gyfer hyn a mynediad yn amrywio gan ddibynnu ar drefniadau a strwythurau lleol sydd ar waith.

Mae'r diffyg difrifol o ran yr opsiynau tai a llety brys a hirdymor priodol sydd ar gael i unigolion sy'n ffoi rhag cam-drin domestig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a hwythau'n hŷn a/neu'n bobl ag anghenion gofal yn gosod heriau sylweddol ychwanegol ar asiantaethau sy'n cynnig cymorth ac yn ymateb i risg.

Ym mhob achos lle mae gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, dylai'r Awdurdod Lleol a'r Uned Atgyfeirio Ganolog gynnal trafodaethau strategaeth o dan broses A126 i benderfynu a ddylid cymryd camau pellach a nodi'r llwybr priodol at gymorth. Mae'n bwysig cofio y gall dioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig fodloni'r meini prawf i gael eu hystyried yn oedolyn sy'n wynebu risg a gall sefyllfaoedd o'r fath fod yn gymhleth i'w rheoli a'u hasesu. Dylid ystyried pob un fel unigolyn yn ei rinwedd ei hun ac ymateb amlasiantaethol medrus, sensitif a chymesur sy'n debygol o gyflawni'r canlyniad gorau.

Galluedd meddyliol

Os oes problemau galluedd, er enghraifft, ar gyfer y dioddefwr, y cyflawnwr neu'r ddau, rhaid ystyried hanes yr unigolyn. Er enghraifft, lle nad oes hanes o gam-drin blaenorol, dylai'r asesiad ganfod a yw'r cam-drin wedi deillio'n uniongyrchol neu a allai fod wedi deillio o effeithiau dementia neu gyflwr arall sy'n effeithio ar alluedd meddyliol, i'r dioddefwr neu'r cyflawnwr. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, efallai y bydd angen cynnal asesiad ffurfiol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i ganfod a oes gan y person alluedd ai peidio.

Fodd bynnag, pan fydd y cyflawnwr yn ofalwr, ni ddylid tybio bod yr ymddygiad sy'n dod i sylw wedi digwydd oherwydd straen gofalwyr heb dystiolaeth na sail. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid ystyried asesiad gofalwr a allai helpu i adnabod a lliniaru unrhyw straen sylfaenol o fewn yr aelwyd ac atal y sefyllfa rhag gwaethygu.

7. Cyfrifoldebau'r Heddlu

Nid yw cam-drin domestig yn dramgwydd troseddol penodol. Defnyddir y term i ddisgrifio amrywiaeth o ddigwyddiadau a geir mewn amgylchiadau penodol. Bydd Heddlu Dyfed Powys (HDP) yn ymateb i holl ddioddefwyr cam-drin domestig fel y gallant gael gwasanaeth o'r ansawdd priodol yn unol â'u hanghenion unigol. Byddir yn ymchwilio'n iawn i bob honiad a bydd y troseddwr yn cael eu dwyn i gyfrif trwy'r system cyfiawnder troseddol os cyrhaeddir y trothwy tystiolaethol ac os yw er budd y cyhoedd bod y troseddwr yn cael eu herlyn.

Bydd Heddlu Dyfed Powys (HDP) yn gweithio gyda phartneriaid amlasiantaeth i sicrhau mai'r prif flaenoriaethau wrth ymdrin â phob achos o gam-drin domestig yw:

- a) Amddiffyn bywydau oedolion a phlant sydd mewn perygl o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- b) Sicrhau bod dioddefwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu diogelu a'u cyfeirio at adnoddau cymorth cenedlaethol a lleol lle ceir cydsyniad i wneud hynny;
- c) Cofnodi pob trosedd yn unol â Safonau Cenedlaethol Cofnodi Digwyddiadau a Safonau Cenedlaethol Cofnodi Troseddau.
- d) Hwyluso camau effeithiol yn erbyn troseddwr fel y gellir eu dwyn i gyfrif trwy'r system cyfiawnder troseddol os cyrhaeddir y trothwy tystiolaethol ac os yw er budd y cyhoedd bod y troseddwr yn cael eu herlyn.

Cyfrifoldeb y swyddogion sy'n ymweld yw nodi a yw'n ymddangos bod gan y dioddefwr anghenion gofal a chymorth a/neu a yw mewn perygl o brofi Cam-drin Domestig. Bydd Heddlu Dyfed Powys yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn sicrhau, lle y bo hynny'n briodol, eu bod yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid diogelu.

Bydd yr awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu am bryder ym mhob achos lle mae'r canlynol yn wir:

- Credir bod oedolyn sy'n wynebu risg yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol (DS ym maes Diogelu Oedolion nid oes angen i 'niwed sylweddol' fod wedi digwydd i gyfiawnhau atgyfeiriad)
- Credir bod angen mwy o wasanaethau cymorth ar oedolyn sy'n wynebu risg

Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch yr angen am atgyfeiriad, gellir gofyn am ymgynghoriad trwy Wasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Hysbysiadau Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPN) a Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPO).

Gellir defnyddio'r rhain yn dilyn digwyddiad cam-drin domestig lle mae'r troseddwr wedi bod yn dreisgar neu wedi bygwth trais tuag at y dioddefwr a bod angen amddiffyn y dioddefwr rhag trais neu fygythiadau pellach. Gellir eu hystyried hefyd ar ôl y digwyddiad, megis yn ystod trafodaethau achos mewn Trafodaethau Dyddiol a chyfarfodydd MARAC.

Mae'r broses wedi'i bwriadu i roi lle i ddioddefwyr gael eu gwynt atynt trwy roi seibiant dros dro iddynt oddi wrth eu camdriniwr a'i gwneud yn bosibl eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth heb ymyrraeth. Mae'n bosibl mai'r adeg pan fo dioddefwyr yn ceisio cymorth neu'n gadael eu camdriniwr yw'r adeg pan fyddant yn wynebu'r risg fwyaf. Gellir dilyn y broses DVPN/DVPO heb gefnogaeth weithredol y dioddefwr, neu hyd yn oed yn groes i'w ddymuniadau, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i'w hamddiffyn rhag trais neu fygythiad o drais. Hefyd, nid oes rhaid i'r dioddefwr fynd i'r

Ilys. Gall hyn helpu trwy gael gwared ar gyfrifoldeb y dioddefwr i gymryd camau yn erbyn eu camdriniwr.

Lle awdurdodir hynny gan swyddog heddlu ar reng Uwch-arolygydd, gall yr heddlu gyflwyno DVPN ac yna rhaid gwneud cais i'r Ilys am DVPO o fewn 48 awr. Os bydd y Ilys yn dyroddi DVPO, rhaid iddo bara am isafswm o 14 diwrnod ac uchafswm o 28 diwrnod.

Dylid rhoi gwybod i'r heddlu ar unwaith am achosion o dorri DVPN/O. Os oes gan gwnstabl sail resymol dros gredu bod DVPN/O wedi cael ei dorri, gall arestio'r sawl sydd dan amheuaeth a'i ddwyn gerbron Ilys ynadon, gan ddarparu mesur pellach i amddiffyn y dioddefwr. Mae torri DVPO yn achos sifil o dorri gorchymyn Ilys. Y gosb am dorri gorchymyn sifil yw £50 am bob diwrnod y mae'r person yn methu â chydymffurfio â'r gorchymyn, hyd at uchafswm o £5000 neu 2 fis o garchar. Rhoddir ystyriaeth i gyflawni troseddau pellach, a allai arwain at arestio ac ymchwilio i'r sawl sydd dan amheuaeth am y troseddau pellach hyn hefyd.

Mae pŵer i arestio ynghlwm wrth achosion o dorri DVPO. Felly, dylid rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw achosion o'u torri ac mae gan yr heddlu'r pŵer i arestio'r sawl sydd dan amheuaeth a'i ddwyn gerbron Ilys ynadon. Mae torri DVPO yn achos sifil o dorri gorchymyn Ilys ac mae'r gosb fel a amlinellir uchod.

Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS).

Cynllun Datgelu Trais yn y Cartref (DVDS) (Cyfraith Clare). Nod y cynllun hwn yw rhoi mecanwaith ffurfiol i aelodau'r cyhoedd wneud ymholiadau am unigolyn y maent mewn perthynas â hwy, neu sydd mewn perthynas â rhywun y maen nhw'n ei adnabod, os oes pryder y gallai fod gan yr unigolyn hanes o drais neu gam-drin.

Os bydd gwiriadau gan yr heddlu'n dangos bod gan yr unigolyn hanes o droseddu camdriniol, neu os oes gwybodaeth arall i ddynodi bod y sawl rydych chi'n ei adnabod mewn perygl, bydd yr heddlu'n ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r unigolyn/unigolion sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn y dioddefwr posibl. Gall unrhyw drydydd parti sy'n pryderu, fel rhiant, cymydog, ffrind neu weithiwr proffesiynol, wneud cais, nid dim ond y dioddefwr posibl.

Ni fyddai trydydd parti sy'n gwneud cais o reidrwydd yn cael yr wybodaeth am yr unigolyn dan sylw. Gall fod yn fwy priodol i rywun arall gael yr wybodaeth megis y dioddefwr posibl neu rywun arall sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn y dioddefwr posibl. Os yw oedolyn sy'n wynebu risg yn agored i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yna dylid defnyddio'r broses arferol ar gyfer gwiriadau'r heddlu.

Bydd Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn rhoi'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ar sail statudol.

8. Cydsyniad a Diogelu Data

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018

yn amddiffyn preifatrwydd personol ac yn cynnal hawliau unigolion ac yn nodi egwyddorion allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon. Ategir hyn ymhellach gan [gytundeb rhannu gwybodaeth amlasiantaeth rhanbarthol](#). Dylid nodi, er ei bod hi'n arfer da ceisio cytundeb unigolyn i ofyn am wasanaeth neu hysbysu os oes pryderon, na ddylai amharodrwydd unigolyn i gytuno neu roi cydsyniad atal rhag hysbysu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol lle ceir seiliau rhesymol dros bryderu ynghylch lles rhywun, neu y gallai rhywun fod yn wynebu risg o niwed. Ar ben hynny, er bod yn rhaid rhoi ystyriaeth bob amser i roi gwybod i'r unigolyn o leiaf am fwriad i hysbysu neu ofyn am wasanaeth, os ystyrir y gallai rhannu hyn cyn hysbysu roi'r unigolyn neu aelod arall o'r aelwyd (er enghraifft plentyn) mewn perygl difrifol a chynyddol pellach o niwed, mae'n gyfreithlon ac yn briodol hysbysu heb gytundeb a heb roi gwybod ymlaen llaw a dylid gwneud hyn yn brydlon a heb oedi. Gellir rhoi chynor a chymorth pellach trwy gysylltu â thîm diogelu'r ALL perthnasol.

9. Awdurdodau Lleol

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (rhan 7), cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol perthnasol yw gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau gweithredu a gymerir yn dilyn asesiad risg gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y gamdriniaeth, yn dilyn hysbysu neu wneud cais am wasanaeth. Gall yr arweinydd diogelu dynodedig roi cymorth a chynor i ymarferwyr ac asiantaethau mewn perthynas ag unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â galluedd meddyliol a chydsyniad a rhannu gwybodaeth fel a amlinellir uchod.

Os bydd anghytundeb yn codi rhwng gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ynghylch penderfyniad, ymateb neu ddarparu gwasanaethau na ellir eu datrys yn anffurfiol, yna dylai ymarferwyr ac asiantaethau gyfeirio at [Brotocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol BDCAGC](#). Mae hyn yn darparu fframwaith i fynd i'r afael yn ffurfiol ag unrhyw anghydfodau neu anghytundebau rhwng asiantaethau, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr.

10. Asesiad Risg DASH

Dylai'r holl staff perthnasol, fel a nodwyd gan eu sefydliad, sydd â chysylltiad uniongyrchol ag oedolion sy'n wynebu risg gael eu hyfforddi i gwblhau'r pecyn cymorth Dangosyddion Risg (DASH) lle nodir bod oedolyn sy'n wynebu risg mewn sefyllfa cam-drin domestig.

Mae'r offeryn DASH ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig, stelcian, ac aflonyddu a thrais ar sail anrhydedd.

Y categorïau risg cydnabyddedig a ddefnyddir gan Heddlu Dyfed Powys yw safonol, canolig ac uchel. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall asiantaethau eraill sy'n cwblhau'r DASH y tu allan i Heddlu Dyfed Powys fynd ati'n wahanol i gwblhau'r asesiad risg gan ddibynnu ar eu rôl benodol, eu sefydliad penodol neu eu hasiantaeth benodol a gallant arfer crebwyll proffesiynol a chyfeirio at wasanaethau arbenigol am gymorth.

Safonol	Nid yw'r dystiolaeth bresennol na'r dangosyddion risg yn nodi'r tebygolrwydd o achosi niwed difrifol h.y. nid oes unrhyw gynnydd mewn difrifoldeb nac amllder.
Canolig	Mae dangosyddion y gellir eu hadnabod o risg o niwed difrifol. Mae gan y troseddwr y potensial i achosi niwed difrifol ond mae'n annhebygol o wneud hynny oni bai bod newid mewn amgylchiadau, er enghraifft methu â chymryd meddyginiaeth, colli llety, perthynas yn chwalo a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.
Uchel	Mae dangosyddion y gellir eu hadnabod o risg o niwed difrifol. Gallai'r digwyddiad posibl ddigwydd ar unrhyw adeg a byddai'r effaith yn ddifrifol. Mae'r risg o niwed difrifol yn risg sy'n peryglu bywyd a/neu'n drawmatig ac y gellir disgwyl i adferiad wedi hynny, boed yn gorfforol neu'n seicolegol, fod yn anodd neu'n amhosibl. Hefyd, dylid ystyried bod cynnydd sylweddol yn nifrifoldeb neu amllder digwyddiadau yn risg uchel. Gall crebwyll proffesiynol ymarferydd adnabod achosion risg-uchel hefyd.

Rhaid i bob dioddefwr, pa un a yw'r risg yn ôl yr asesiad yn perthyn i'r categori Uchel, Canolig ynteu Safonol gael darpariaeth cynllunio diogelwch a chyngor diogelu. Dylid teilwra hyn i anghenion unigol pwrpasol y dioddefwr.

Pan fo'r dioddefwr yn dal i fod mewn perthynas gyda'r cyflawnwr, gellir rhoi mesurau cynllunio diogelwch ar waith i leihau risg, y dylid eu hadolygu o bryd i'w gilydd ac yn ddeinamig, os ceir gwybodaeth newydd neu os hysbysir o'r newydd am bryderon ynghylch diogelu.

Dylai staff perthnasol gael hyfforddiant, i lefel sy'n dibynnu ar eu rôl a'u cyfrifoldebau, i gwblhau'r offer asesu risg DASH ac i gefnogi dealltwriaeth ynghylch y meini prawf ar gyfer atgyfeirio at Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC).

Stelcian ac Aflonyddu mewn Digwyddiadau Cam-drin Domestig

Mae stelcian yn batrwm o ymddygiad diangen ailadroddus sy'n achosi i ddioddefwyr deimlo'n ofidus neu'n ofnus. Gall gael ei gyflawni gan ddynion neu ferched. Mae'n thema gylchol mewn llawer o ddynladdiadau domestig ac mae'n ddangosydd risg-uchel.

Mae stelcian yn aml yn cael effaith emosiynol enfawr ar y rhai y mae'n effeithio arnynt. Gall arwain at deimladau o iselder, gorbryder a hyd yn oed anhwylder straen wedi trawma. Mae'n drosedd seicolegol yn ogystal â chorfforol.

Gall stelcian fod yn uniongyrchol; trwy fynd wyneb yn wyneb â'r dioddefwr neu drwy ddilyn y dioddefwr. Gellir ei wneud hefyd dros y ffôn, drwy'r post neu ar-lein. Gall fod yn anuniongyrchol; wedi'i hwyluso trwy drydydd partiön, gan gynnwys teulu, cymdeithion a chysylltiadau gwaith.

Gall ymchwiliadau i gam-drin domestig gynnwys troseddau sy'n ymwneud ag aflonyddu ac i'r gwrthwyneb. Gall aflonyddu fod yn rhan uniongyrchol o'r cam-drin domestig neu gall ddigwydd oherwydd gweithredoedd pobl sy'n gysylltiedig â'r camdriniwr.

Lle mae stelcian yn amlwg, mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei nodi ac yr ymdrinnir ag ef yn briodol. Rhaid cynnal ymateb diogelu estynedig sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth gyflym, gadarn ac effeithiol gyda'r tramgwyddwr.

Gall yr Heddlu ystyried gosod amodau mechnïaeth llym lle rhoddir mechnïaeth. Dylai Ymchwilyr yr Heddlu sicrhau bod erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd ar drywydd gorchymyn atal yn dilyn euogfarn neu ryddfarn yn y llys.

Dylid gofyn yr 11 cwestiwn ychwanegol o'r S-DASH ar gyfer achosion o Stelcian ac Aflonyddu (2009) i ddiodefwyr stelcian ac aflonyddu mewn digwyddiad domestig. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau y gellir cynnal asesiad risg cywir a chael dealltwriaeth lawn am amgylchiadau'r dioddefwr er mwyn diogelu ac ymyrryd yn briodol. Sylwch mai offeryn ychwanegol yw hwn nad yw ond yn cael ei gwblhau gan Heddlu Dyfed Powys fel a amlinellir isod.

Mae cyngor i'r rhai sydd wedi cyflawni ymddygiad stelcian ar gael trwy gysylltu â'r Clinig Stelcian Cenedlaethol ar 020 8702 6104 neu anfon e-bost i NationalStalkingClinic@nhs.net.

Mae cyngor a chymorth i bobl sy'n ddiodefwyr stelcian ar gael ar-lein yn <http://www.stalkinghelpline.org/> neu ar y Llinell Gymorth Stelcian Genedlaethol 0808 802 0300.

Mae HDP yn defnyddio Offeryn Adnabod Risg Stelcian penodol, sy'n eu galluogi i nodi'n well y lefelau risg sy'n gysylltiedig ag achosion o stelcian. Bydd swyddogion cam-drin domestig arbenigol HDP hefyd yn gallu cefnogi gyda chyngor ac arweiniad.

Trafodaethau Dyddiol (DD) a Chynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth Cam-drin Domestig (MARAC)

Mae'r Drafodaeth Ddyddiol yn gyfarfod amlasiantaeth lle trafodir achosion o gam-drin domestig sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer MARAC. Mae'r Drafodaeth Ddyddiol yn rhoi cyfle cynnar i asiantaethau partner ddiogelu'r rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, creu cynllun gweithredu amlasiantaeth i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd a chynyddu diogelwch a llesiant y rhai sy'n wynebu risg. Mae'r Drafodaeth Ddyddiol hefyd yn gweithredu fel cam brysbennu ar gyfer y Gynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC).

Mae MARAC yn gyfarfod amlasiantaeth sy'n trafod diodefwyr cam-drin domestig a

nodwyd fel rhai sy'n wynebu risg uchel o niwed difrifol neu ddynladdiad. Mae adolygiad manylach o'r cynllun diogelwch a ddatblygwyd ac a roddwyd ar waith gan y Drafodaeth Ddyddiol yn digwydd.

Mynychir y Drafodaeth Ddyddiol a'r MARAC gan gynrychiolwyr o amrywiaeth o asiantaethau gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, y tîm amddiffyn plant, y gwasanaeth tai, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVAs), y gwasanaeth prawf, gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol.

Yn ystod y cyfarfodydd, rhennir gwybodaeth berthnasol a chymesur am y risgiau presennol, gan alluogi cynrychiolwyr i adnabod opsiynau i gynyddu diogelwch y dioddefwr ac unrhyw bartïon eraill sy'n agored i niwed, megis plant.

Prif ffocws y Drafodaeth Ddyddiol-MARAC yw diogelu'r dioddefwr (gall dioddefwr fod mor ifanc ag 16 oed). Fodd bynnag, gan ystyried cyfraith y DU sy'n blaenoriaethu diogelwch plant, bydd y Drafodaeth Ddyddiol-MARAC hefyd yn gwneud cysylltiadau â chyfarfodydd amlasiantaeth eraill er enghraifft a phrosesau i ddiogelu plant a rheoli ymddygiad y cyflawnwr.

Elfen greiddiol o Drafodaeth Ddyddiol-MARAC yw'r dybiaeth weithredol na all unrhyw asiantaeth nac unigolyn unigol weld y darlun cyflawn o ran bywyd dioddefwr i allu adnabod a rheoli'r risgiau, ond efallai y bydd gan bob un ohonynt ddealltwriaeth sy'n hanfodol i'w diogelwch. Nid yw'r dioddefwr yn mynychu'r cyfarfod ond mae'n cael ei gynrychioli gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig, sy'n cynrychioli ei farn a'i ddymuniadau ac yn sicrhau mai diogelwch y dioddefwr yw ffocws y cyfarfod.

Mae'r prosesau hyn yn gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd i leihau'r risg o niwed difrifol a chynyddu diogelwch a llesiant dioddefwyr a'u plant.

Nodau/diben y cyfarfodydd amlasiantaeth:

Trafodaeth Ddyddiol (DD)

1. Diogelu pob unigolyn trwy rannu gwybodaeth i gynyddu diogelwch, iechyd a llesiant oedolion a phlant sy'n ddi-ddefwyr/goroewyr cam-drin domestig a hynny mewn modd amserol.
2. Mae Unigolion/Teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin domestig yn cael ymateb cyflymach a chydgyssylltiedig.
3. Rhoddir cymorth ac ymyrraeth yn agosach at amser y digwyddiad.
4. Mae gweithiwr cam-drin domestig arbenigol yn sicrhau bod llais y dioddefwr/goroeswr yn cael ei gynrychioli ar y cam cynllunio.
5. Penderfynu a yw'r cyflawnwr honedig yn peri risg sylweddol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned yn gyffredinol.
6. Adolygu risg a chanfod a yw'r holl gymorth diogelu / proffesiynol yn ei le (Ail Achosion)
7. Sicrhau bod camau gweithredu blaenorol gan y MARAC wedi'u cwblhau, i wella'r cynllun rheoli risg, lleihau erledigaeth a ailadroddir a gwella atebolrwydd asiantaethau.

8. Trafod ceisiadau DVDS
9. Cymhwysir trothwy cyson i bob achos wrth ystyried y meini prawf ar gyfer MARAC.
10. Ymlynu wrth 10 egwyddor MARAC effeithiol fel a argymhellir gan Safelives.

MARAC (MARAC)

1. Rhannu gwybodaeth i gynyddu diogelwch, iechyd a llesiant dioddefwyr, gan gynnwys oedolion a'u plant;
2. Pennu lefel y risg y mae'r cyflawnwr yn ei hachosi i'r dioddefwr a'r plant cysylltiedig, a pha un a oes unrhyw risg i'r cyhoedd yn gyffredinol;
3. Adolygu a gwella'r cynllun rheoli risg a ddatblygwyd yn y Drafodaeth Ddyddiol, gan roi cymorth proffesiynol ychwanegol i bawb sy'n wynebu risg, gyda'r nod o leihau'r risg o niwed yn y dyfodol;
4. Lleihau erledigaeth a ailadroddir;
5. Ymlynu wrth 10 egwyddor MARAC effeithiol fel a argymhellir gan Safelives;
6. Gwella atebolrwydd asiantaethau;
7. Gwella cefnogaeth i staff sy'n ymwneud ag achosion risg-uchel o gam-drin domestig;
8. Cyfrannu at ddatblygu arfer gorau; a
9. Adnabod materion polisi sy'n codi o achosion a drafodwyd yn y MARAC a chodi'r rhain trwy'r sianeli priodol.

MAPPA (Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd):

Mae trefniadau wedi'u bwriadu i amddiffyn cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr troseddau, rhag niwed difrifol gan droseddwyr rhyw neu dreisgar a throseddwyr peryglus eraill. Sefydlodd Adran 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 y 'Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd' (MAPPA) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau cyfiawnder troseddol a chyrff eraill weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth gyda'r troseddwyr hyn.

Yr awdurdodau cyfrifol yw'r Heddlu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ac mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod y risgiau a achosir gan y troseddwr cymhwysol yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol.

1. Mae tri chategori o droseddwyr:

- 1- Troseddwr rhyw cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys troseddwyr y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â gofynion hysbysu o dan Ran 2 Deddf Troseddau Rhyw 2003.
- 2- Troseddwr a gafwyd yn euog o drosedd o dan Atodlen 15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ac:

- a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy o garchar, neu

- a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy o garchar ac a drosglwyddir i'r ysbyty dan a47/a49 Deddf Iechyd Meddwl 1983, neu
- sy'n cael ei gadw yn yr ysbyty dan a37 Deddf Iechyd Meddwl 1983 gyda neu gorchymyn cyfyngu neu heb un o dan a41 y Ddeddf honno.

3- Troseddwr peryglus arall: rhywun sydd wedi cael rhybudd am drosedd neu a gafwyd yn euog o drosedd sy'n dangos y gallai achosi niwed difrifol **ac** sy'n golygu bod rheolaeth amlasiantaeth yn ofynnol. Efallai na fydd hyn am drosedd o dan Atodlen 15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

2. Mae 3 lefel o reoli risg ar gyfer y troseddwr cymhwysol, gan ddibynnu ar lefel y risg y mae'n ei hachosi.
Lefel 1- Rheolaeth arferol gan asiantaeth
Lefel 2 - Rheolaeth amlasiantaeth weithredol
Lefel 3 - Rheolaeth amlasiantaeth fanylach weithredol
3. Rheolir troseddwr Lefel 1 gan yr asiantaeth arweiniol (yr Heddlu neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF) - mae angen rhannu gwybodaeth, datgeliadau a thrafodaethau rhwng asiantaethau hyd yn oed ar Lefel 1.
4. Ar gyfer troseddwr Lefel 2 a 3, cynhelir cyfarfodydd MAPPA i drafod rheolaeth ar y troseddwr ac i sicrhau bod Cynllun Rheoli Risg cadarn ar waith i reoli'r risg a achosir.
5. Mae MAPPA yn darparu fframwaith statudol manylach sydd wedi'i fwriadu i gynyddu gwaith mewn partneriaeth sy'n sicrhau bod pob asiantaeth yn darparu gwerth i reoli'r risg a achosir gan y troseddwr.

Yr angen am ymagwedd amlasiantaethol

Yng nghyd-destun cam-drin domestig, cydnabyddir nad oes gan yr un asiantaeth yr holl wybodaeth y mae ei hangen i asesu anghenion dioddefwyr a'u plant yn effeithiol, nac i asesu'n llawn y risg o niwed difrifol i ddioddefwyr.

Mae'r cyfrifoldeb i gymryd camau priodol yn gorwedd gydag asiantaethau unigol; nid yw'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Drafodaeth Ddyddiol-MARAC. NI DDYLAI asiantaethau aros nes bod achos wedi cael ei drafod mewn cyfarfod amlasiantaeth cyn cymryd y camau angenrheidiol neu roi cyngor neu fynediad at wasanaethau. Byddai'n llawer mwy perthnasol i ddioddefwr gael cymorth cyn y cyfarfod a bod gwybodaeth am hyn yn cael ei gyflwyno i Drafodaeth Ddyddiol-MARAC.

Yn yr un modd, ni ddylid defnyddio'r broses MARAC fel offeryn i uwchgyfeirio achosion drwy'r system, boed hynny'n asesiadau gofal cymdeithasol, tai neu wasanaethau eraill – gellir gwneud hyn y tu allan i fforwm MARAC.

Os yw dioddefwr neu gyflawnwr wedi'i nodi naill ai fel MAPPA lefel 2 neu lefel 3

enwol, ni thrafodir yr achos hwn yn y MARAC.

Mae canllawiau MAPPA 2012 yn nodi:

"22.22 Er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion ac adnoddau, dylid cydlynu gwaith MARAC a MAPPA yn y fath fodd fel ag i ddarparu'r ymateb mwyaf effeithiol i'r dioddefwr. Dylai'r cyfarfod MAPPA gael blaenoriaeth dros MARAC. Y rheswm dros hyn yw bod MAPPA, yn wahanol i MARAC, yn set statudol o drefniadau."

"22.23 Pan fo troseddwr yn droseddwr MAPPA ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rheolaeth MAPPA Lefel 2 neu 3, a bod y dioddefwr wedi cael ei atgyfeirio at y MARAC lleol, rhaid gwahodd y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig i'r cyfarfod MAPPA ynghyd ag unrhyw weithiwr proffesiynol arall sydd â gwybodaeth berthnasol am y dioddefwr.

Bydd y cyfarfod MAPPA yn sicrhau bod yr asesiad risg a Chynllun Rheoli Risg MAPPA yn nodi camau gweithredu i amddiffyn y dioddefwr ac yn eu rhoi ar waith a hynny mewn modd effeithiol. Bydd ansawdd y Cynllun Rheoli Risg MAPPA yn cael ei wella gyda'r wybodaeth ychwanegol y gall y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ac eraill ei darparu. Bydd hyn yn cefnogi rheolaeth effeithiol ar y troseddwr ac yn lleihau'r risg bosibl o niwed i'r dioddefwr."

Atodiad 1 – Llwybr Rhanbarthol at Gymorth ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru

DS- Os bydd angen sylw/presenoldeb yr heddlu neu sylw meddygol ar frys, ffoniwch 999

Ar gyfer ymholiadau'r heddlu ffoniwch: 101

Llwybr Rhanbarthol at Gymorth gyda Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'r Llwybr Rhanbarthol hwn at Gymorth wedi'i ddylunio mewn partneriaeth gyda'r Darparwyr Arbenigol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol draws y rhanbarth, i roi cymorth i sicrhau cysondeb a pharhad argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau i ddinasyddion rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r Llwybr hwn yn cydnabod yn gyntaf yr amhariad ar ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Covid-19, a elwir hefyd yn achos o'r Coronafeirws. Y bwriad yw y bydd y ddogfen hon yn nodi'r llwybr clir at gymorth a chynghor mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol sy'n byw ac yn gweithio yn y rhanbarth.

Mae'n bwysig cydnabod bod pob Darparwr Gwasanaeth Arbenigol yn parhau i weithredu, er eu bod yn gwneud hynny â llai o adnoddau a/neu adnoddau cyfyngedig. Mae'r mwyafrif o wasanaethau'n cael eu darparu trwy weithio o bell; fodd bynnag, bydd pob asiantaeth yn ymateb i atgyfeiriadau trwy eu llwybrau atgyfeirio arferol.

Mynediad at Gymorth

O ran mynediad at gymorth, rydym yn cynnal llwybr cyson at wasanaethau trwy **Linell Gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 8010800** – Mae'r llinell gymorth hon ar agor i fenywod, dynion a phobl ifanc sy'n profi unrhyw fath o Gam-drin Domestig neu Drais Rhywiol.

Bydd **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** yn rhoi cynghor ac arweiniad ar unwaith cyn cyfeirio at Ddarparwr Cymorth Arbenigol lleol.

Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar Orosywyr a Dioddefwyr				
Awdurdod	Darparw(y)	Arbenigedd	Rhif cyswllt	Wedi'i

Lleol	r a Rhaglenni			gynwys fel rhan o Linell Gymorth Byw Heb Ofn
Gwasanaeth Rhanbarthol	Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig - Hafan Cymru a Pobl	Cam-drin Domestig Risg Uchel	Sir Gâr a Phowys- 01267 221194 Sir Benfro a Cheredigion- 01646 698820.	Ydy
Gwasanaeth Rhanbarthol	Llwybrau Newydd	Trais rhywiol	Ceredigion: 01970 610124 Sir Gâr: 01267 235464 Powys: 01267 226166 SARC Y Tu Allan i Oriau (Pob ardal) 07423 437020	Ydy
Gwasanaeth Cenedlaethol	BAWSO	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	0800 731 8147 (llinell gymorth 24 awr)	
Powys	Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn	Cam-drin Domestig	01686 629114	Ydy
	Gwasanaeth Trais Domestig Calan	Cam-drin Domestig	01874 625146	Ydy
Ceredigion	Gwasanaeth	Cam-drin	01970 625585	Ydy

	h Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru	Domestig	A/neu 01239 615385	
Sir Gâr	Gwasanaet h Cam-drin Domestig Caerfyrddin	Cam-drin Domestig	01267238410/234725	Ydy
	Gwasanaet h Cam-drin Domestig Trothwy	Cam-drin Domestig	01554 752422	Ydy
	Gwasanaet h Trais Domestig Calan	Cam-drin Domestig	01269 597474	Ydy
	Dewis Choice	Cam-drin Domestig ar gyfer pobl 60+ oed	Atgyfeirio drwy asiantaeth statudol e.e. diogelu, yr heddlu, iechyd	Nac ydy
Sir Benfro	Pobl	Cam-drin Domestig	01646 698820	Ydy
	Hafan Cymru	Cam-drin Domestig- Lloches yn Unig	0808 80 10 800	Ydy
Ymyriadau wedi'u hanelu at unigolion sy'n cyflawni ymddygiadau camdriniol				
Ar Draws y Rhanbarth	Rhaglen Dewisiadau Gwasanaet h Cam-drin Domestig Trothwy	Cyflawnwyr Cam-drin Domestig	enquiries@threshold- das.org.uk 01554 752422	Nac ydy
	Gwasanaet h Trais Domestig Calan a Hyb Ymyrraeth Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn	Cyflawnwyr Cam-drin Domestig	gbranch@calandvs.org.u k 01639 794448 admin@familycrisis.co.uk 01686 629114	Nac ydy
	Seicoleg Fforensig y DU a Gwasanaet h Cam-drin Domestig Trothwy	Unigolion sy'n dangos ymddygiada u stelcian	Gwasanaeth a gyrchwyd drwy Heddlu Dyfed Powys	Nac ydy

Lloches

Bydd darpariaeth lloches ac argaeledd llety lloches yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol pob lloches ar y pryd ac amgylchiadau'r unigolyn sy'n ceisio lloches. Fel mewn amgylchiadau arferol, bydd pob cais yn cael ei ystyried fesul achos unigol, gan ystyried materion fel: argaeledd cyfredol, cyfleusterau sy'n ofynnol, amgylchiadau personol a diogelwch yr unigolyn/unigolion sy'n ceisio llety ac amgylchiadau a diogelwch preswylwyr presennol a/neu eu plant.

Mae gan bob Awdurdod Lleol fesurau a chynlluniau penodol ar waith, o ran stoc llety mewn argyfwng i gefnogi'r galw am lety lloches yn ystod y cyfnod hwn.

MARAC a Thrafodaethau Dyddiol

Lle mae staff wedi'u hyfforddi (gan gynnwys staff y tu allan i wasanaethau arbenigol) rhaid iddynt ddefnyddio'r Rhestr Wirio Adnabod Risg DASH a'r ffurflen atgyfeirio MARAC lle y bo'n briodol yn unol â'r broses arferol.

Darpariaeth Larwm Diogelwch Personol

Mae gan Heddlu Dyfed Powys gyflenwad o larymau personol a larymau Skyguard ar gael i'w defnyddio. Mae HDP a'r Gwasanaethau Arbenigol wedi cytuno ar broses ar gyfer rheoli'r larymau hyn a'u dosbarthu'n brydlon i unigolion y nodwyd bod eu hangen arnynt.

I hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol am bryderon ynghylch Oedolion sy'n Wynebu Risg, cysylltwch â'r awdurdod lleol perthnasol:

SIR GÂR:

Gwasanaeth Gwybodaeth, Cymorth a Chynhorthwy ar 0300 333 2222 neu gellir gwneud atgyfeiriad trwy ein gwefan www.carmarthenshire.gov.uk
E-bost: iaa@deltawellbeing.org.uk

CEREDIGION:

Yn Ystod Oriau Swyddfa: Canolfan Gyswllt – Ffôn: 01545 574000, Ffacs: 01545 574002

E-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk

Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0300 456 3554

SIR BENFRO:

Yn Ystod Oriau Swyddfa: Tîm Dyletswydd – Ffôn: 01437 776056

E-bost: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk

Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0300 333 2222

POWYS:

Powys People Direct:

Ffôn: 01597 827666

E-bost: people.direct.adult@powys.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth, ewch at wefan Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

<https://www.cysur.wales/>